

# CYNGOR SIR CEREDIGION

**Adroddiad i'r:** Cabinet

**Dyddiad y cyfarfod:** 14/02/23

**Teitl:** Adroddiad Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael ynghylch Cyllideb 2023/24

**Diben yr adroddiad:** Ystyried y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 a gwneud argymhelliad terfynol i'r Cyngor Llawn ar gyfer y cyfarfod ar 02/03/23.

**Er:** Penderfyniad

**Portffolio Cabinet:** Y Cynghorydd Bryan Davies - Arweinydd y Cyngor  
Y Cynghorydd Gareth Davies - Aelod Cabinet:  
Gwasanaethau Cyllid a Chaffael

Holl Aelodau'r Cabinet

## 1. CEFNDIR

Ystyriodd y Cabinet y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2023/24 ar 24/01/23 a gofynnodd am farn y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Ers hynny, mae'r Pwyllgorau wedi cwrdd ar 02/02/23, 09/02/23 a 10/02/23. Mae adborth gan bob Pwyllgor yn cael ei adrodd i'r cyfarfod Cabinet hwn.

## 2. CASGLIAD

Mae angen i'r Cabinet nawr wneud ei argymhelliad terfynol i'r Cyngor Llawn fel bod modd paratoi papurau Cyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod llawn y Cyngor ar 02/03/23.

Byddai cynnydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor yn gyfystyr â chost o £1,553.60 ar gyfer eiddo Band D at ddibenion y Cyngor Sir, a fyddai'n gynydd o £105.70 y flwyddyn (neu £8.81 y mis / £2.03 yr wythnos).

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: A gwblhawyd Aseiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu wedi ystyried y materion Hirdymor, Integreiddio, Cynnwys ac Atal sy'n codi o'r cynigion manwl ynghylch y gyllideb.

<b>Argymhelliad:</b>	Argymell y canlynol i'r Cyngor Llawn: <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Ar ôl ystyried argymhelliad y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch parhau i Barcio Ceir am Ddim yn Llandysul a Thregaron, y dylai'r gost bosibl o £40k sy'n gysylltiedig â hyn gael ei hariannu o'r Ddarpariaeth o £400k a neilltuwyd ar gyfer risgiau o ran Chwyddiant Cyflogau ac Ynni ac mai dim ond o dan opsiwn Treth y Cyngor nad yw'n is na 7.3% y mae'r dull hwn o weithredu yn bosibl.</li> <li>2. Gofyniad Cyllideb 23/24 yw £180.101m a chynnydd o 7.3% yw lefel Treth y Cyngor a gynigir ar gyfer 23/24 at ddibenion y Cyngor Sir (gan gynnwys 1.3% mewn perthynas â'r cynnydd yn Ardoll yr Awdurdod Tân).</li> </ol>
<b>Y rheswm dros y penderfyniad:</b>	Er mwyn galluogi paratodau Cyllideb 2023/24 i barhau, fel bod modd paratoi papurau Cyllideb a chyfrifiadau Treth y Cyngor ar gyfer cyfarfod llawn y Cyngor ar 02/03/23.
<b>Trosolwg a Chraffu:</b>	Mae cynigion y Gyllideb wedi cael eu hystyried gan y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu ar 02/02/23 a chan y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu unigol ar 09/02/23 a 10/02/23. Mae adborth yn cael ei adrodd i'r cyfarfod Cabinet hwn.
<b>Blaenoriaethau Corfforaethol:</b>	Mae'r Gyllideb yn cefnogi pob agwedd ar Strategaeth Gorfforaethol 2022-2027.
<b>Goblygiadau ariannol:</b>	Rhan o'r broses o osod y gyllideb.
<b>Pwerau Statudol:</b>	Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1972.
<b>Papurau Cefndir:</b>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <a href="#">Setliad referniw a chyfalaf llywodraeth leol: dros dro 2023 i 2024   LLYW.CYMRU</a></li> <li>• Adroddiad ynghylch y Gyllideb ddrafft ar gyfer 23/24 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 24/01/23</li> </ul>
<b>Atodiadau:</b>	Dim
<b>Swyddog Arweiniol Corfforaethol:</b>	Duncan Hall Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Cyllid a Chaffael
<b>Swyddogion Adrodd:</b>	Duncan Hall a Justin Davies
<b>Dyddiad:</b>	13/02/23